



DEDDF DRWYDDEDU 2003
TRWYDDED ANHEDDAU

Cyngor Sir **Ceredigion** County Council



ydded anheddau

PRM 0502 (27/07/2018)

- Manylion am y safle

Cyfeiriad post y safle, neu os nad oes un, cyfeirnod map ordnans neu ddisgrifiad

BYRGYR

**Y CAMBRIA
GLAN Y MOR**

**Tref bost
ABERYSTWYTH**

**Cod Post
SY23 2AZ**

Rhif ffôn

Os oes cyfyngiad ar yr amser, y dyddiadau

NID OES CYFYNGIADAU AMSER AR Y DRWYDDED

Gweithgareddau trwyddedadwy a ganiateir gan y drwydded

**ADLONANT WEDI EI REOLEIDDIO:
CERDDORIAETH FYW
CERDDORIAETH WEDI EI RECORDIO**

CYFLENWI ALCOHOL

Yr amseroedd y mae'r drwydded yn caniatáu cynnal gweithgareddau trwyddedadwy

ADLONIAENT WEDI EI REOLEIDDIO:

CERDDORIAETH FYW

LLUN – SUL: 1100 – 0100 yn ddyddiol

CERDDORIAETH WEDI EI RECORDIO

LLUN – SUL: 1100 – 0200 yn ddyddiol

CYFLENWI ALCOHOL

LLUN – SUL: 1100 – 0100 yn ddyddiol

AMSERAU ANSAFONOL

1100 Noswyl Calan tan 1100 Dydd Calan

Oriau agor y safle

LLUN – SUL: 0700 – 0200 yn ddyddiol

AMSERAU ANSAFONOL:

1100 Noswyl Calan tan 1100 Dydd Calan

Os yw'r drwydded yn caniatáu cyflenwi alcohol, a yw hyn yn golygu ar gyfer yfed ar y safle neu oddi yno

AR AC ODDI AR Y SAFLE

**Enw, cyfeiriad (cofrestredig), rhif ffôn ac e-bost (os yw'n berthnasol)
deilydd y drwydded safle**

BYRGYR CYF

**THE CAMBRIA
MARINE TERRACE
ABERYSTWYTH
CEREDIGION
SY23 2AZ**

**Rhif cofrestredig y deilydd, er enghraifft rhif cwmni, rhif elusen (os yw'n
berthnasol)**

CWMNI CYFYNGEDIG - 11077892

**Enw, cyfeiriad a rhif ffôn Goruchwyliwr Safle dynodedig os yw'r drwydded
safle yn caniatáu cyflenwi alcohol**

Joanna Williams

**Rhif trwydded bersonol ac enw'r awdurdod sy'n rhoi'r drwydded bersonol
a ddelir gan y Goruchwyliwr Safle dynodedig os yw'r drwydded safle yn
caniatáu cyflenwi alcohol**

CER 0108

CYNGOR SIR CEREDIGION

1 Amodau gorfodol pan fydd trwydded yn awdurdodi cyflenwi alcohol

(1) Pan fydd trwydded safle'n awdurdodi cyflenwi alcohol, rhaid i'r drwydded gynnwys yr amodau canlynol.

(2) Yr amod cyntaf yw na ellir cyflenwi alcohol dan y drwydded safle-

(a) ar adeg pan nad oes yna oruchwyliwr safle dynodedig yn unol â'r drwydded safle, neu

(b) ar adeg pan nad oes gan y goruchwyliwr safle dynodedig drwydded bersonol neu pan fydd ei drwydded bersonol wedi'i hatal.

(3) Yr ail amod yw bod unrhyw alcohol a gyflenwir dan y drwydded safle'n gorfod cael ei gyflenwi neu'i awdurdodi gan berson sydd â thrwydded bersonol.

2 Amod gorfodol: dangos ffilmiau

(1) Pan fydd trwydded safle'n awdurdodi dangos ffilmiau, rhaid i'r drwydded gynnwys amod bod mynediad i blant pan fydd unrhyw ffilm yn cael ei dangos yn cael ei gyfyngu yn unol â'r adran hon.

(2) Pan fydd y corff categoreiddio ffilmiau'n cael ei nodi yn y drwydded, oni bai bod is-adran (3)(b) yn berthnasol, rhaid cyfyngu mynediad i blant yn unol ag unrhyw argymhelliad a wneir gan y corff hwnnw.

(3) (a) pan nad yw'r corff categoreiddio ffilmiau wedi'i nodi yn y drwydded, neu (b) pan fydd yr awdurdod trwyddedu wedi hysbysu deiliad y drwydded bod yr is-adran hon yn berthnasol i'r ffilm dan sylw, dylid cyfyngu mynediad i blant yn unol ag unrhyw argymhelliad a wneir gan yr awdurdod trwyddedu hwnnw.

(4) Yn yr adran hon -

Mae "plant" yn golygu pobl dan 18 oed; ac mae

"corff categoreiddio ffilmiau" yn golygu'r person neu'r personau a ddynodwyd fel yr awdurdod dan adran 4 o Ddeddf Recordiau Fideo 1984 (c.39) (yr awdurdod sy'n pennu addasrwydd ffilmiau fideo ar gyfer categoreiddio).

3 Amod gorfodol: goruchwyllo drysau

(1) Pan fydd trwydded safle'n cynnwys amod bod yn rhaid i un berson neu ragor fod ar yr eiddo ar adegau penodol i gwblhau gweithgaredd diogelwch, rhaid i'r drwydded gynnwys amod bod yn rhaid i unrhyw berson o'r fath feddu ar drwydded Awdurdod y Diwydiant Diogelwch.

(2) Ond does dim byd yn is-adran (1) sy'n gofyn am osod amod o'r fath -

(a) ar gyfer safleoedd o fewn paragraff 8(3)(a) o Atodlen 2 Deddf y Diwydiant Diogelwch Preifat 2001 (c.12) (safleoedd gyda thrwyddedau safle sy'n awdurdodi dramâu neu ffilmiau, neu

(b) ar gyfer safleoedd mewn perthynas ag-

(i) unrhyw achlysur a grybwyllir ym mharagraff 8(3)(b) neu (c) o'r Atodlen honno (safleoedd sy'n cael eu defnyddio gan glwb sydd â thystysgrif safle clwb yn unig, dan hysbysiad digwyddiad dros dro sy'n awdurdodi dramâu neu ffilmiau, neu dan drwydded hapchwarae, neu

(ii) unrhyw achlysur o fewn paragraff 8(3)(d) o'r Atodlen honno (achlysuron a bennir gan reoliadau dan y Ddeddf honno).

(3) At ddibenion yr adran hon -

(a) mae "gweithgaredd diogelwch" yn golygu gweithgaredd y mae paragraff 2(1)(a) o'r Atodlen honno'n berthnasol ar ei gyfer, a

(b) bod paragraff 8(5) o'r Atodlen honno (dehongli cyfeiriadau at achlysur) yn berthnasol, am ei fod yn berthnasol mewn perthynas â pharagraff 8 o'r Atodlen honno.

Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) 2014

Yn effeithiol o 6 Ebrill 2014

1. Rhaid i berson perthnasol sicrhau na chaiff unrhyw alcohol ei werthu na'i gyflenwi i'w yfed ar y safle nac oddi arno am bris sy'n llai na'r pris a ganiateir.

2. At ddibenion yr amod a nodir ym mharagraff 1-

(a) mae "treth" i'w dehongli yn unol â Deddf Trethi ar Ddiodydd Alcoholaidd 1979(6);

(b) "y pris a ganiateir" yw'r pris a geir drwy ddefnyddio'r fformiwla –

$$P = D + (D \times V)$$

pan mai –

(i) P yw'r pris a ganiateir

(ii) D yw cyfradd y dreth sy'n daladwy mewn perthynas â'r alcohol fel pe bai'r dreth yn cael ei chodi ar ddyddiad gwerthu neu gyflenwi'r alcohol, a

(iii) V yw cyfradd y dreth ar werth sy'n daladwy mewn perthynas â'r alcohol fel pe bai'r dreth ar werth yn cael ei chodi ar ddyddiad gwerthu neu gyflenwi'r alcohol

(c) ystyr "person perthnasol", mewn perthynas â safle lle y mae trwydded safle mewn grym, yw –

(i) Deiliad y drwydded safle,

(ii) Goruchwylydd dynodedig y safle (os oes un) mewn perthynas â thrwydded o'r fath, neu

(iii) Deiliad trwydded bersonol sy'n cyflenwi alcohol o dan drwydded o'r fath neu sy'n caniatáu iddo gael ei gyflenwi;

(d) ystyr "person perthnasol", mewn perthynas â safle lle y mae tystysgrif safle clwb mewn grym, yw unrhyw un o aelodau neu swyddogion y clwb sy'n bresennol ar y safle mewn rôl sy'n galluogi'r aelod neu'r swyddog i atal y cyflenwad o dan sylw; ac

(e) ystyr “treth ar werth” yw treth ar werth sy’n daladwy yn unol â Deddf Treth ar Werth 1994(7)

3. Os nad yw’r pris a ganiateir a roddir gan Baragraff (b) o baragraff 2 (ar wahân i’r paragraff hwn) yn rhif cyfan o geiniogau, rhaid cymryd mai’r pris a roddir gan yr is-baragraff hwnnw yw’r pris a roddir mewn gwirionedd gan yr is-baragraff hwnnw wedi’i dalgrynnu i fyny i’r geiniog agosaf.
4. (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys os yw’r pris a ganiateir gan Baragraff (b) o baragraff 2 ar y naill ddiwrnod (“y diwrnod cyntaf”) yn wahanol i’r pris a ganiateir ar y diwrnod nesaf (“yr ail ddiwrnod”) o ganlyniad i newid i gyfradd y dreth neu’r dreth ar werth.

(2) Mae’r pris a ganiateir sy’n gymwys ar y diwrnod cyntaf yn gymwys i werthiant neu gyflenwad alcohol sy’n digwydd cyn i’r cyfnod o 14 diwrnod sy’n dechrau ar yr ail ddiwrnod ddod i ben.

Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) (Diwygio)
2014

Mae'r Amodau Gorfodol isod yn **disodli** Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) 2010 a daethant i rym ar **1 Hydref 2014**.

Mae amodau 1 i 4 yn cyfeirio at yr holl safleoedd sy'n gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle. Mae amod 3 yn berthnasol i safleoedd sy'n gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle.

1. (1) Rhaid i'r person cyfrifol sicrhau nad yw staff ar y safle perthnasol yn ymgymryd â, yn trefnu neu'n cymryd rhan mewn unrhyw hyrwyddo anghyfrifol mewn perthynas â'r safle.

(2) Yn y paragraff hwn, mae hyrwyddo anghyfrifol yn golygu un neu fwy o'r gweithgareddau a ganlyn, neu weithgareddau sy'n sylweddol debyg, sy'n digwydd er mwyn hyrwyddo gwerthiant neu gyflenwad o alcohol i'w yfed ar y safle -

(a) gemau neu weithgareddau eraill sy'n gofyn am neu'n hybu, neu sydd wedi'u dylunio i ofyn neu i hybu unigolion i -

(i) yfed swm o alcohol o fewn cyfyngiad amser (heblaw yfed alcohol a werthwyd neu a gyflenwyd ar y safle cyn terfyn y cyfnod y mae'r unigolyn cyfrifol wedi'i awdurdodi i werthu neu gyflenwi alcohol), neu

(ii) yfed cymaint o alcohol â phosib (un ai mewn cyfyngiad amser neu fel arall);

(b) darparu swm diddiwedd neu amhenodol o alcohol am ddim neu am bris penodedig neu ar ddisgownt i'r cyhoedd neu i grŵp a gaiff ei ddiffinio gan nodwedd benodol sy'n peri risg sylweddol o danseilio amcan trwyddedu;

(c) darparu alcohol am ddim neu ar ddisgownt neu unrhyw beth arall fel gwobr i annog neu i wobrwyo prynu ac yfed alcohol dros gyfnod o 24 awr neu lai mewn modd sy'n peri risg sylweddol o danseilio amcan trwyddedu;

(d) gwerthu neu gyflenwi alcohol mewn cysylltiad â phosteri neu bamffledi ar, neu yng nghyffiniau'r safle, a ellir ei ystyried yn rhesymol fel ei fod yn caniatáu, neu'n annog neu'n cyfeirio at effeithiau meddwdod ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn modd ffafriol;

(e) unigolyn yn tywallt alcohol yn uniongyrchol i geg unigolyn arall (heblaw pan fo unigolyn yn methu yfed heb gymorth oherwydd anabled).

2. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau fod dŵr yfed am ddim yn cael ei ddarparu ar gais i gwsmeriaid pan fod hyn ar gael yn rhesymol.

3. (1) Rhaid i ddeilydd y drwydded eiddo neu ddeilydd y dystysgrif eiddo clwb sicrhau y gweithredir polisi gwirio oed ar y safle mewn perthynas â gwerthu neu gyflenwi alcohol.

(2) Rhaid i oruchwyliwr dynodedig y safle mewn perthynas â'r drwydded eiddo sicrhau bod gwerthiant alcohol ar y safle yn digwydd yn unol â'r polisi gwirio oed.

(3) Rhaid i'r polisi fynnu bod unigolion sy'n edrych dan 18 oed i'r person cyfrifol (neu'r oed hŷn a nodir yn y polisi) ddangos ar gais, cyn cael prynu alcohol, tystiolaeth yn cynnwys eu llun, dyddiad geni a naill ai -

(a) marc holograffig, neu

(b) nodwedd uwchfioled.

4. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau -

(a) os caiff unrhyw un o'r diodydd alcoholig canlynol eu gwerthu neu eu cyflenwi i'w hyfed ar y safle (heblaw am ddiodydd alcohol sy'n cael eu gwerthu neu eu cyflenwi ar ôl eu gwneud yn barod i'w gwerthu mewn cynhwysydd wedi'i gau'n ddiogel), bydd yr alcohol ar werth i gwsmeriaid yn y mesurau a ganlyn -

(i) cwrw neu seidr: ½ pint;

(ii) jin, rym, fodca neu wisgi: 25 ml neu 35 ml; a

(iii) gwin llonydd mewn gwydryn: 125 ml;

(b) caiff y mesurau hyn eu dangos mewn bwydlen, ar restr brisiau neu ddeunydd printiedig arall sydd ar gael i gwsmeriaid ar y safle; a

(c) lle nad yw cwsmer, mewn perthynas â gwerthiant alcohol, yn manylu ar y swm o alcohol i'w werthu, bydd y gwerthwr yn hysbysu'r cwsmer fod y mesurau hyn ar gael.

Atodiad 2 – Amodau sy'n gyson â'r Rhestr weithredu

Bydd yr ymgeisydd yn cydweithredu â'r awdurdodau perthnasol er mwyn cadw trefn wrth redeg y safle.

Ni oddefir ymddygiad meddw, treisgar neu gwerylgar a bydd tramgwyddwyr yn cael eu gwahardd, a rhoir gwybod i'r Heddlu os oes angen.

b) Atal troseddau ac anhrefn

Poteli a Gwydrau

1. Ni chaniateir mynediad i'r safle ar unrhyw adeg i gwsmeriaid sy'n cario poteli agored neu rai sydd wedi'u selio neu wydrau.
2. Ni chaniateir i gwsmeriaid fynd â chynwysyddion agored o alcohol neu ddiodydd ysgafn oddi ar y safle.
3. Bydd poteli a gwydrau'n cael eu symud o ardaloedd cyhoeddus y safle unwaith eu bod yn wag neu'n segur.

Troseddau ac Anhrefn

1. Rhoir gwybod i'r heddlu am unrhyw achos o drosedd neu anhrefn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.
2. Bydd yr ymgeisydd yn cadw at y nifer uchaf a ganiateir ar gyfer y safle neu rannau o'r safle, yn unol ag argymhellion yr awdurdod tân.
3. Bydd y safle'n gweithredu polisi prawf oedran a gall fod gofyn i gwsmeriaid brofi eu hoedran cyn cael mynediad i'r safle, neu cyn y gwerthir alcohol iddynt. I'r diben hwn, bydd yr ymgeisydd yn derbyn cardiau Validate neu grŵp Portman, neu ddogfennau adnabod swyddogol eraill megis trwydded yrru gyda llun neu basbort.

Hyrwyddo Diodydd

1. Ni chaniateir nosweithiau hollgynhwysol neu ymgyrchoedd hyrwyddo anghyfrifol eraill.

Cyffuriau

1. Ni fydd yr ymgeisydd yn goddef y defnydd o gyffuriau anghyfreithlon ar y safle, a bydd unrhyw un y gwyddys, neu yr amheuir ei fod yn defnyddio cyffuriau anghyfreithlon ar y safle'n cael ei wahardd o'r safle.

c) Diogelwch Cyhoeddus

Poteli a Gwydrau

1. Ni chaniateir mynediad i'r safle ar unrhyw adeg i gwsmeriaid sy'n cario poteli agored neu rai sydd wedi'u selio neu wydrau.
2. Ni chaniateir i gwsmeriaid fynd â chynwysyddion agored o alcohol neu ddiodydd ysgafn oddi ar y safle.
3. Bydd poteli a gwydrau'n cael eu symud o ardaloedd cyhoeddus y safle unwaith eu bod yn wag neu'n segur.

Cyffuriau

1. Ni fydd yr ymgeisydd yn goddef y defnydd o gyffuriau anghyfreithlon ar y safle, a bydd unrhyw un y gwyddys, neu yr amheuir ei fod yn defnyddio cyffuriau anghyfreithlon ar y safle'n cael ei wahardd o'r safle.

Diogelwch Tân

1. Mae'r holl ddrysau allanfa'n hawdd eu hagor a'u cau heb ddefnyddio allwedd, cerdyn, cod neu ddull tebyg.
2. Caiff y drysau allanfa eu gwirio'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn.
3. Caiff yr holl ddyfeisiau diogelwch symudadwy eu tynnu pryd bynnag y mae'r safle ar agor i'r cyhoedd neu'r staff.
4. Cedwir defnydd y seddi meddal mewn cyflwr gwrthfflam.
5. Cynhelir profion ar y goleuadau argyfwng bob mis. Bydd adroddiadau ar y profion hyn ar gael os gwneir cais.
6. Mae yna arwyddion priodol ar gyfer pob allanfa dân a llwybr dianc.
7. Mae pob drws allanfa'n agor tuag allan.

Cymorth Cyntaf

1. Mae offer a deunyddiau cymorth cyntaf digonol a phriodol ar gael ar y safle yn ardal y bwyty.

Goleuadau

1. Yn absenoldeb golau dydd digonol, darperir a chynhelir goleuadau addas a digonol yn unrhyw ardaloedd sydd ar agor i'r cyhoedd.
2. Mae'r arwyddion diogelwch tân wedi'u goleuo'n ddigonol.
3. Mae goleuadau argyfwng wedi'u gosod a chânt eu cynnal a'u cadw'n rheolaidd.
4. Cynhelir profion misol ar y goleuadau argyfwng.

Tystysgrifau Diogelwch

1. Bydd gan y safle adroddiad cyfnodol boddhaol ar gyfer y gosodiadau trydanol. Cynhelir archwiliad blynyddol a cheir adroddiad newydd bob tro.
2. Mae gan y safle adroddiad cyfnodol boddhaol ar gyfer y goleuadau argyfwng. Cynhelir archwiliad blynyddol a cheir adroddiad newydd bob tro.
3. Mae gan y safle yswiriant atebolrwydd cyhoeddus addas hyd at £2,000,000.00 (miliwn).
4. Mae gan y safle dystysgrif archwilio offer diffodd tân cludadwy. Cynhelir archwiliad blynyddol, a cheir dystysgrif newydd bob tro.

d) Atal niwsans cyhoeddus

Cedwir y drysau a'r ffenestri ar gau yn ystod adloniant wedi'i reoleiddio sy'n cynnwys cerddoriaeth wedi'i seinchwyddo, fel bod llai o sŵn i'w glywed o'r tu allan.

Arddangosir hysbysiadau amlwg, clir a darllenadwy ger pob allanfa, yn gofyn i gwsmeriaid barchu anghenion y trigolion lleol a gadael y safle a'r ardal yn dawel. Bydd unrhyw rai sy'n gwrthod gadael y safle'n dawel yn cael eu gwahardd o'r safle.

e) Amddiffyn plant rhag niwed

Mae'r safle'n gweithredu polisi prawf oedran, a gall fod angen i gwsmeriaid brofi eu hoedran. I'r diben hwn derbynnir cardiau Validate neu grŵp Portman, neu unrhyw ddogfen swyddogol arall, megis trwydded yrru gyda llun, neu basbort.

Atodiad 3 – Amodau yn atodedig yn sgil gwrandawriad gan yr awdurdod trwyddedu/cyfarfod cyfryngu

Atodiad 4 – Cynlluniau

